

PRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs D. L. King (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE,
Mrs. J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, S. Feeney, Mrs. J. Hughes,
A. R. James, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James,
P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, V. Roberts, A. J. Rutherford,
D. Simmons, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

126. YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs J. M. Evans,
K. R. Jones, Mrs. P. M. Jones a Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc.

127. CYHOEDDIADAU

Cynghorodd Clerc y Dref yr aelodau:

- (i) Ei fod wedi anfon gwahoddiad i'r holl aelodau drwy neges e-bost i fynd i achlysur lansio'r 'Sky Flyer' a gofynnodd i'r aelodau a oedd yn dymuno mynd i'r digwyddiad ymateb yn uniongyrchol i'r cyfeiriad a nodwyd yn y neges e-bost.
- (ii) Yn dilyn canslo cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a'r Pwyllgor Cynllunio ar 1 Mawrth 2023, roedd y Cynghorydd M. Blackwell wedi dod i'r swyddfa a gwneud gwaith cynnal a chadw ar system Technoleg Gwybodaeth y Cyngor sy'n ymdrin â chyfarfodydd. Roedd Clerc y Dref yn dymuno cofnodi ei werthfawrogiad i'r Cynghorydd Blackwell am wneud y gwaith hwn.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau a diolch i'r Cynghorydd Blackwell am ei waith.

128. Y CYFARFOD BLYNYDDOL / DERBYNIAD

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad ysgrifenedig ynghylch y Cyfarfod Blynyddol / Sefydlu'r Maer a gofynnodd am gyfarwyddiadau'r aelodau.

Yng nghyswllt Sefydlu'r Maer cynghorodd Clerc y Dref am y drefn a ddefnyddiwyd gan gynghorau maint tebyg a holodd a oedd yr aelodau'n parhau i ddymuno bwrw ymlaen gyda'r digwyddiad.

Teimlad yr aelodau oedd ei bod yn bwysig hyrwyddo swydd y Maer fel arweinydd dinesig y dref a chyfeiriwyd at bwysigrwydd y rhyngweithio a oedd yn digwydd yn y digwyddiad. Roedd yr aelodau o'r farn fod angen cydbwyso hyn yn erbyn yr hinsawdd economaidd gyfredol.

PENDERFYNWYD cynnal Cyfarfod Blynyddol 2023 a Sefydlu'r Maer fel yn y blynyddoedd blaenorol ond y byddai hyn yn cael ei adolygu ar frys gan yr Is-bwyllgor

Digwyddiadau Dinesig a Chymdeithasol ar gyfer blynyddoedd y dyfodol, gyda'r posibilrwydd o godi tâl am ddod i'r digwyddiad i'w ystyried.

O ran y Cyfarfod Blynyddol cyfeiriodd Clerc y Dref fod llai o le ar gael yn Siambr y Cyngor yn dilyn gosod yr offer Technoleg Gwybodaeth gofynnol i hwyluso cynnal cyfarfodydd hybrid. Atgoffodd Clerc y Dref yr aelodau fod presenoldeb da yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ac roedd hyn yn arwain at yr ystafell yn teimlo'n anghyffyrddus o llawn a'i argymhelliad oedd cyfyngu'r niferoedd yn y Cyfarfod Blynyddol ble bo'n bosibl.

PENDERFYNWYD yn achos Cyfarfod Blynyddol 2023 annog teulu'r Maer a'r Dirprwy Faer i'w sefydlu a chaplaniaid y Maer sy'n ymddeol a'r Maer newydd i ddod i'r Cyfarfod Blynyddol, gyda'r holl westeion eraill yn cael eu hannog i ddod i'r digwyddiad Sefydlu'r Maer yn unig a chyfeirio'r rhestr Gwesteion Dinesig i'r Is-bwyllgor Digwyddiadau Dinesig a Chymdeithasol i'w ystyried.

Cynghorodd Clerc y Dref mai dyddiad arfaethedig y Cyfarfod Blynyddol oedd 17 Mai 2023 ar hyn o bryd, ond roedd ymholiadau wedi dangos na fyddai unrhyw un o'r lleoliadau ar gyfer yr elfen Sefydlu'r Maer ar gael ar y diwrnod hwnnw. Cynghorodd Clerc y Dref ymhellach nad oedd etholiad i'w chynnal eleni felly gallai'r Cyngor gynnal y Cyfarfod Blynyddol ar unrhyw ddyddiad ym mis Mai.

PENDERFYNWYD y byddai Clerc y Dref, mewn ymgynghoriad gyda'r Maer newydd, yn penderfynu ar ddyddiad addas ar gyfer Cyfarfod Blynyddol y Cyngor yn 2023.

129. DETHOL MAER 2023/24

PENDERFYNWYD y byddai'r Cynghorydd Peter Prendergast yn enwebu a'r Cynghorydd S. Feeney yn eilio'r Cynghorydd Ms. J.L. McAlpine fel y Darpar Faer.

130. DETHOL DIRPRWY FAER 2023/24

PENDERFYNWYD y byddai'r Cynghorydd Mrs. J. Butterfield yn enwebu a'r Cynghorydd Mrs. E. M. Chard yn eilio'r Cynghorydd Miss C.L. Williams fel y Darpar Ddirprwy Faer.

131. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgorau yn cynnig ac yn eilio cofnodion eu cyfarfodydd perthnasol h.y.

Y Cynghorwyr Mrs D. L. King a Mrs. J. McAlpine – cofnodion cyfarfod y Cyngor
Y Cynghorwyr Ms McAlpine a D. Simmons – cofnodion y Pwyllgor Cynllunio
Y Cynghorwyr A. J. Rutherford a B. Mellor – cofnodion y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol

132. PENODI AELODAU PWYLLGORAU / IS-BWYLLGORAU / LLYWODRAETHWYR YSGOL AM Y FLWYDDYN DDINESIG 2023/24

PENDERFYNWYD bod y Cynghorydd A. J. Rutherford yn cynnig a'r Cynghorydd Mrs. D. L. King yn eilio bod aelodau pwyllgorau ac is-bwyllgorau'r Cyngor Tref fel y nodwyd yn Atodiad 2.

133. ETHOL CADEIRYDD – Y PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL

PENDERFYNWYD bod y Cyngorydd Ms. J. L. McAlpine yn enwebu a'r Cyngorydd P. Prendergast yn eilio mai Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol yn 2023/24 fyddai'r Cyngorydd A. J. Rutherford.

134. ETHOL IS-GADEIRYDD – Y PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL

PENDERFYNWYD bod y Cyngorydd A. J. Rutherford yn enwebu a'r Cyngorydd Mrs. D. L. King yn eilio mai Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol yn 2023/24 fyddai'r Cyngorydd B. Mellor.

135. ETHOL CADEIRYDD – Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

PENDERFYNWYD bod y Cyngorydd P. Prendergast yn enwebu a'r Cyngorydd Mrs. D. L. King yn eilio mai Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio yn 2023/24 fyddai'r Cyngorydd Ms. J. L. McAlpine.

136. ETHOL IS-GADEIRYDD – Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

PENDERFYNWYD bod y Cyngorydd P. Prendergast yn enwebu a'r Cyngorydd Ms. J. L. McAlpine yn eilio mai Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio yn 2023/24 fyddai'r Cyngorydd D. Simmons.

137. ETHOL CADEIRYDD – Y PWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL A GWEITHREDOL

PENDERFYNWYD bod y Cyngorydd Mrs. W. M. Mullen-James yn enwebu a'r Cyngorydd A. R. James yn eilio mai Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol yn 2023/24 fyddai'r Cyngorydd A. J. Rutherford.

138. ETHOL IS-GADEIRYDD – Y PWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL A GWEITHREDOL

PENDERFYNWYD bod y Cyngorydd Mrs. D. L. King yn enwebu a'r Cyngorydd Mrs. E. M. Chard yn eilio mai Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol yn 2023/24 fyddai'r Cyngorydd Mrs. W. M. Mullen-James.

139. PENODI CYNRYCHOLWYR AR SEFYDLIADAU ALLANOL / GRWPIAU PARTNERIAETH

PENDERFYNWYD bod y Cyngorydd A. R. James yn cynnig a'r Cyngorydd Miss S. L. Roberts yn eilio bod penodi cynrychiolwyr ar sefydliadau allanol fel yn y rhestr a ddosbarthwyd.

140. DYNODI DYLETSWYDDAU CYMERADWY

PENDERFYNWYD bod y Cyngorydd A. J. Rutherford yn cynnig a'r Cyngorydd D. Simmons yn eilio bod presenoldeb cynrychiolwyr a benodwyd yn y cyfarfodydd isod yn cael eu dynodi'n ddyletswyddau cymeradwy o dan Gynllun Lwfansau i Aelodau'r Cyngor Tref, ble bo cyfarfodydd yn cael eu cynnal y tu allan i ffiniau'r dref:

- *Hyfforddiant Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Cyngor a'i Bwyllgorau safonol*
- *Cymdeithas Cyngorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru (a'i Bwyllgor Cludiant)*
- *Sir Ddinbych Gynaliadwy*
- *Grŵp Cyfeirio Prosiect Gogledd Sir Ddinbych Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr*
- *Presenoldeb y Maer/y Dirprwy Faer mewn digwyddiadau*

141. AMSERLEN CYFARFODYDD 2023/24

PENDERFYNWYD bod y Cynghorydd A. J. Rutherford yn cynnig a'r Cynghorydd B. Mellor yn eilio cymeradwyo'r amserlen cyfarfodydd a ddosbarthwyd i'r aelodau.

142. LLOFNODWYR (2023/24)

PENDERFYNWYD bod y Cynghorydd A. J. Rutherford yn cynnig a'r Cynghorydd B. Mellor yn eilio'r llofnodwyr isod ar gyfrifon cyfredol a chyfrifon buddsoddi'r Cyngor yn y flwyddyn ddinesig 2023/24.

Y Maer a'r Dirprwy Faer, fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor Llawn
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol

Ynghyd ag un o'r unigolion a ganlyn:

Clerc y Dref
Dirprwy Glerc y Dref
Y Swyddog Cyllid

143. AGENDA DDRAFFT / DYDDIAD Y CYFARFOD BLYNYDDOL

PENDERFYNWYD cymeradwyo Agenda ddrafft y Cyfarfod Blynyddol a ddosbarthwyd.

144. YSBYTY FRENHINOL ALEXANDRA – CYFARFOD GYDA CHYNRYCHIOLWYR BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR

Ymhellach i gofnod rhif 107 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2023, cadarnhaodd Clerc y Dref y byddai cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn dod i gyfarfod y Cyngor i'w gynnal ar 15 Mawrth 2023, a bod yr aelodau wedi penderfynu'n flaenorol y dylid penderfynu ar y cwestiynau i'w holi cyn y cyfarfod ynghylch yr ysbyty newydd arfaethedig ar safle Ysbyty Frenhinol Alexandra.

Bu'r aelodau'n trafod hanes yr ysbyty newydd arfaethedig a bod presenoldeb cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Ddinbych yn flaenorol wedi awgrymu, er bod yr uchelgais i gael ysbyty yn parhau, roedd Llywodraeth Cymru yn anfoddog rhyddau'r cyllid sy'n ofynnol. Adroddwyd ymhellach fod achosion busnes a gyflwynwyd gan y Bwrdd Iechyd wedi'u gwrthod gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorodd aelod fod Ms. Alison Constantine wedi'i phenodi yn awr i oruchwyllo'r datblygiad.

Cafwyd sylwadau cyffredinol gan yr aelodau fod y Bwrdd Iechyd yn cael ei ystyried yn un rhy fawr, ei fod mewn Mesurau Arbennig ar hyn o bryd, bod aelodau newydd wedi dod yn aelodau o'r Bwrdd yn ddiweddar ac y bu diffygion ariannol difrifol ac y gallai'r rhain fod yn ffactorau sy'n cyfrannu at yr oedi cyn rhyddhau'r cyllid sy'n ofynnol a dechrau'r gwaith ar yr ysbyty newydd.

Roedd yr aelodau o'r farn fod y Cyngor angen gwybod pwy fyddai'n gwneud penderfyniad ar ddyfodol ailadeiladu'r ysbyty yn y pen draw, a mynegwyd pryderon fod sefydliadau eraill wedi derbyn gwybodaeth gwrthgyferbyniol gan wahanol adrannau yn y Bwrdd Iechyd.

Yn dilyn rhagor o drafodaeth **PENDERFYNWYD** y byddai'r Cyngor yn gofyn am atebion i'r materion uchod ac, yn dilyn y cyflwyniad, yn ystyried cysylltu â Llywodraeth Cymru i drefnu cyfarfod gyda'r Gweinidog perthnasol i ddeall eu safiad ynghylch yr ysbyty.

145. CYNGOR TREF Y RHYL – CYNLLUN HYFFORDDIANT

Ymhellach i gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2023, cynghorodd Clerc y Dref yr aelodau pan oeddynt wedi cymeradwyo Cynllun Hyfforddiant y Cyngor Tref cytunwyd y byddai'r rhan hon o'r cyfarfod yn cael ei neilltuo i alluogi aelodau i gynnal Sesiwn Holi ac Ateb.

Cafwyd sylwadau gan yr aelodau eu bod yn teimlo ei bod yn bwysig bod aelodau newydd ac aelodau cyfredol yn cael y cyfle i gael hyfforddiant ynghylch cael eich ethol/ailethol yn aelod o'r Cyngor, yn enwedig o gofio maint y gyllideb y gofynnir i'r Cyngor ei rheoli.

Nid oedd yr aelodau'r teimlo fod arfer flaenorol y Cyngor o un Cynghorydd yn mentora Cynghorydd arall yn effeithiol.

Dywedodd aelod ei bod yn anodd i aelodau ofyn am hyfforddiant penodol fel aelod newydd, gan na fyddent yn ymwybodol o'r meysydd hyfforddiant sy'n ofynnol.

Cyfeiriodd Clerc y Dref at y neges e-bost yn ddiweddar yn gofyn i Gynghorwyr nodi unrhyw feysydd yr hoffent gael hyfforddiant arnynt, ond mai dim ond un aelod oedd wedi enwi maes penodol.

Cynghorodd Clerc y Dref ei fod ef a swyddogion eraill yn barod i gwrdd ac unrhyw aelodau a oedd yn dymuno derbyn gwybodaeth ychwanegol ynghylch pwnc penodol a phwysleisiodd y dylai aelodau sicrhau eu hunain eu bod yn deall mater yn llwyr cyn pleidleisio arno. Cynghorodd Clerc y Dref y byddai'n fodlon cyfarfod ag unrhyw aelodau rhwng 5 a 5.30pm cyn cyfarfod y Cyngor os oedd unrhyw faterion penodol ar yr agenda ble'r oeddynt angen rhagor o wybodaeth neu eglurhad amdanynt.

Dywedodd aelod fod cyfrifon y Cyngor yn un maes ble'r oedd o'r farn y byddai'n fuddiol cwrdd â swyddogion i'w trafod a chadarnhaodd Clerc y Dref y byddai'n hapus i drefnu cyfarfod o'r fath.

146. DIWEDDU'R CYFARFOD

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer:

Dyddiad: